

Adfent 2018

'Wele, bydd y wryf yn beichiogi ac yn esgor ar fab, gelwir ef Immanuel'

Immanuel

Wrth feddwl am y gair Immanuel, 'Duw gyda ni', cofiais am ymweliad â chapel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, adeg y Nadolig rhyw bum mlynedd yn ôl. O gwmpas yr amser hwnnw daeth, ac fe ddaw hyd heddiw, rhyw 140 o wirfoddolwyr ynghyd i actio a llwyfannu Stori'r Geni yn y festri – a hynny o ganlyniad i weledigaeth Sally Humble Jackson. Roedd Sally wedi ymweld â charcharorion yng Ngharchar Caerdydd ac wrth helpu nifer yno i ddarllen Stori'r Geni sylweddolodd nad oedd y syniad lleia' ganddyn nhw am yr hyn oedd wedi digwydd ym Methlehem, ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Felly bwriadodd ati i wneud rhywbeth positif am y sefyllfa

Gwahoddodd dîm o unigolion i roi o'u hamser yn ystod yr ychydig wythnosau cyn y Nadolig ac i llwyfannu drama'r geni yng nghysgod siop John Lewis, yng nghanol bwrllwm siopa'r brif ddinas. Roedd Capel y Tabernacl wedi cynnig ei hunain iddynt fel lleoliad posib. Erbyn hyn mae'r llwyfannu yn digwydd mewn sawl tre o gwmpas Cymru a llynedd daeth dros 6.000 o bobl i wyllo'r ddrama- mewn gwahanol leoliadau – dros 2,500 o'r rheiny yn blant ysgol.

Wrth i'r golau bylu yn y festri daw geiriau cyfarwydd Efyngyl Luc dros yr uchel seinydd ac fe glywn y llyfarydd yn datgan,

'Tua'r un adeg dyma Cesar Awgustus yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. (Hwn oedd y cyfrifiad cyntaf, gafodd ei gynnal cyn bod Cwiriniws yn llywodraethur Syria.) Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad.'

Gyda'r geiriau yn atseinio yn ein clustiau roeddem yn nôl ym Methlehem yn llygad dystion i ryfeddod geni'r baban Iesu. Mae'r set o'n blaenau – Mair a Joseff ifanc ynghanol eu ffrindiau a bwrllwm eu bywydau; gwelwn y doethion yn cychwyn ar eu taith a'r bugeiliaid yn syfrdan gan neges yr angylion. Roedd y cyfan yn brofiad gwerth chweil – ac yn wled i'r synhwyrâu – o gefnlen hardd y sêr i sioncrwydd a doniolwch y pypedwyr.



Ar ddiwedd y ddrama cawn gyfle i gyfarfod â'r cymeriadau a sylweddoli bod gwahanol agweddau o'r ddrama wedi dylanwadu arnyn nhw.

Ymhen ychydig dechreuais sgwrsio â gwraig a eisteddai wrth fy ymyl 'Shwd ych chi medde fi?'

'lawn' – medde hithe (mewn acen Caerdydd) –

'Fe ddes i 'ma llynedd i weld y ddrama ac am ei fod e mor dda fe ddes i nôl i'w weld e' sawl tro. Dw i 'ma eleni eto.'

'Oes gyda chi gyswllt capel te?' meddwn i.

Na doedd dim.

'Ro'n i wedi cefnu ar y cyfan – ond nawr ers dod fan hyn dw i'n mynd i gapel Elim yng nghanol Caerdydd – ac mae'n braf.' Pasiodd dyn swil yr

olwg heibio i ni a'n cyfarch –

'Shw mae?' medden nhw wrth gyfarch ei gilydd.

'O'n i'n arfer 'nabod' y dyn 'na.' – medde hi.

Oedd roedd hi'n arfer nabod y dyn hwnnw – roedd y ffrind wedi bod yn ŵr iddi. Ac er nad oeddynt wedi siarad efo'i gilydd am flynyddoedd rhywsut yn adrodd hanes gwyrth y

geni dechreuwyd ar gydnabod, adnabod ac adfer eu perthynas.

Gadewais y Tabernacl yn gwenu.

Dyma i mi oedd gwyrth drama'r Geni – yr Immanuel Duw gyda ni –sy'n para i fod gyda ni a dylanwadu arnom ni yng nghanol holl gymhlethodau ein bywyd.

LAJ



Eglwys Bresbyteraidd Cymru Coleg Trefeca a Choleg y Bala



Yng Nghymanfa Gyffredinol Gorffennaf 2017 cytunwyd y dylem edrych o'r newydd ar sut y mae ein canolfannau, yng Ngholeg Trefeca a Choleg y Bala yn hyrwyddo'n gweinidogaeth a'n cenhadaeth fel Cyfundeb. I'r diben hwnnw, gwahoddir sylwadau gan rai sy'n gyfarwydd gyda gweithgarwch y ddwy ganolfan neu sy'n defnyddio'r canolfannau i alluogi Panel Adolygu a benodwyd i ystyried eu hawgrymiadau. Dylid anfon eich sylwadau at yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 20fed Ionawr 2019.